TIR NATUR

# Polisi Iaith Gymraeg
# Tir Natur

## Cynnwys


1. Ein Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg ..... 2
2. Cyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg ..... 3
    2.1. Cydraddoldeb a'r Cynnig Rhagweithiol ..... 3
    2.2. Hyrwyddo'r Gymraeg yn Rhagweithiol ..... 4
3. Gweithredu'r Polisi Iaith ..... 5
    3.1. Capasiti Sefydliadol ..... 5
    3.2. Cyfrifoldeb ..... 5
    3.3. Polisïau, Gweithdrefnau a Chanllawiau ..... 6
    3.4. Monitro a Gwerthuso ..... 6
    3.5. Adolygu ..... 6

# 1. Ein Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg

Ein gweledigaeth yn Tir Natur ydy Cymru ble mae natur wyllt a chymunedau yn cyd-fyw ac yn ffynnu, ble caiff ecosystemau eu hadfer yn llawn, a ble gall pobl ailddarganfod eu lle o'u mewn.

Fel elusen Gymreig sy'n rhoi lle canolog i bobl a chymunedau, mae rhan y Gymraeg yn greiddiol i wireddiad ein gweledigaeth. Rydym yn cydnabod arwyddocâd a phwysigrwydd y Gymraeg i fywyd cenedlaethol Cymru ac i fywydau beunyddiol ei siaradwyr. Rydym yn cydnabod hefyd bod y Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu cymdeithasol, gweinyddol ac economaidd creiddiol mewn nifer helaeth o gymunedau a rhwydweithiau yng Nghymru ac rydym yn datgan ein cefnogaeth i ymdrechion er hyrwyddo defnydd helaethach o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd Cymru.

At hynny, mae'r Gymraeg yn gwneud Tir Natur yn unigryw ymhlith sefydliadau tebyg ar draws y Deyrnas Unedig sy'n gwneud gwaith ailwylltio.

Yn hynny o beth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwreiddio a'i choleddu o fewn diwylliant yr elusen, yn fewnol a hefyd yn ein hymwneud â'n cymuned ehangach.

Byddwn yn cyflawni hynny drwy ddilyn y pum egwyddor ganlynol:

- Byddwn yn sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg yn ein cyfathrebu â'r cyhoedd.

- Byddwn yn cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol fel dewis iaith.

- Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo'r Gymraeg, gan ddathlu'n arbennig lle'r Gymraeg fel rhan o dreftadaeth fyw ein safle yng Nghwm Doethïe a'r ardal ehangach, ac unrhyw ddatblygiadau/safleoedd eraill yn y dyfodol.

- Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti i gyflawni'r uchod drwy fynd ati'n rhagweithiol i recriwtio staff a gwirfoddolwyr sydd â sgiliau Cymraeg addas, ynghyd â sicrhau, lle bo angen cyfieithu, y caiff y costau eu cyllidebu a'u cynnwys mewn ceisiadau am gyllid.

- Mae cyfrifoldeb ar bawb o fewn ein sefydliad, yn Aelodau'r Bwrdd, yn staff ac yn wirfoddolwyr – boed siaradwyr Cymraeg ai peidio – i sicrhau ein bod yn dilyn yr egwyddorion hyn.

TIR NATUR

# 2. Cyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg

Mae'r adran hon yn manylu ar sut bydd Tir Natur yn cyflawni ei weledigaeth ar gyfer y Gymraeg yn ei weithrediadau dydd-i-ddydd.

## 2.1. Cydraddoldeb a'r Cynnig Rhagweithiol

Mae Tir Natur yn cydnabod bod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol yng Nghymru, a bod eu statws yn gyfartal.

Y Cynnig Rhagweithiol ydy'r egwyddor y dylai fod yn glir bod croeso i bobl ymwneud â sefydliad yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu Saesneg, heb orfod gofyn. Mae'n ymwneud ag arferion fel cyfarch unigolion yn y Gymraeg ar y ffôn neu wyneb yn wyneb, creu a chynnig dogfennau a ffurflenni dwyieithog (at ddefnydd mewnol ac allanol), sicrhau bod dewis iaith glir ar gael o'r cychwyn cyntaf a chadw cofnod o ddewis iaith unigolion ar gyfer ymwneud â nhw yn y dyfodol. Mae'n sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n hyderus ac yn gyfforddus i ddefnyddio'r iaith, ac mae'n rhan allweddol o fframwaith strategol Llywodraeth Cymru, *Mwy na Geiriau*.

Mae'r isod yn amlinellu sut bydd Tir Natur yn cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol ac yn sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ei waith.

### Wyneb cyhoeddus

Mae'r Gymraeg yn greiddiol i hunaniaeth Tir Natur. Bydd gan Tir Natur hunaniaeth gorfforaethol sylfaenol Gymraeg neu ddwyieithog. Adlewyrchir yr hunaniaeth hon mewn arwyddion, deunydd argraffedig, deunydd electronig ysgrifenedig, deunydd fideo, ffurflenni a deunydd esboniadol, deunydd cyhoeddusrwydd, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff.

### Cyfathrebu ysgrifenedig

Byddwn yn cyfathrebu'n ysgrifenedig yn ddwyieithog neu ar sail dewis iaith unigolion, fel y bo'n briodol.

Bydd holl gyswllt cyffredinol ysgrifenedig yr elusen yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnal yr un safonau yn y ddwy iaith fel ei gilydd.

Wrth gyfathrebu'n ddwyieithog, byddwn yn dilyn yr egwyddor o roi'r Gymraeg ar y brig neu – os rhoddir y ddwy iaith ochr yn ochr – ar y chwith. Mae hyn yn dilyn yr arfer orau fel yr amlinellir yng Nghanllawiau Dylunio Dwyieithog Comisiynydd y Gymraeg.

Lle defnyddir llwyfannau electronig ar gyfer cyfathrebu electronig, gwneir pob ymdrech i ddefnyddio llwyfannau sy'n hwyluso cyfathrebu dwyieithog.

Bydd unrhyw gyswllt ysgrifenedig uniongyrchol ag unigolion yn ddwyieithog neu yn newis iaith yr unigolyn, fel y bo'n briodol.

Byddwn yn ei gwneud yn glir ar y wefan, mewn unrhyw ffurflenni ac mewn llofnodion e-bost o gyfrifon swyddogol Tir Natur bod croeso i bobl gysylltu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac na fydd eu dewis iaith yn arwain at oedi cyn ymateb.

### Cyfathrebu llafar

Gwneir pob ymdrech i gyfathrebu yn llafar yn newis iaith yr unigolyn.

Mewn digwyddiadau cyhoeddus ble ceisir sgyrsiau un-i-un ag aelodau'r cyhoedd, bydd Tir Natur yn sicrhau presenoldeb staff neu wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, er mwyn galluogi cyfathrebu yn newis iaith unigolion.

Mewn cyfarfodydd cyhoeddus, bydd Tir Natur yn gwneud pob ymdrech i hwyluso cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer y di-Gymraeg. Bydd y trefnwyr yn ei gwneud yn glir bod croeso i siaradwyr a chyfranwyr siarad yn Gymraeg, gan sicrhau bod y di-Gymraeg yn deall sut i ddefnyddio cyfarpar cyfieithu ar y pryd. Os cynhelir cyfarfod y tu allan i Gymru, bydd gofynion cyfieithu yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gynllunio gychwynnol.

Wrth siarad dros y ffôn neu mewn cyfarfodydd nad ydynt yn rhai cyhoeddus, bydd Tir Natur yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod aelod o staff neu wirfoddolwr ar gael i siarad yn newis iaith yr unigolion sy'n bresennol. Cyfrifoldeb y cynrychiolydd o Tir Natur sy'n trefnu'r cyfarfod neu sy'n gwneud/derbyn yr alwad fydd galluogi'r dewis hwnnw.

### Cyfathrebu cymysg

Yn achos cyfathrebu sy'n defnyddio'r cyfrwng llafar a'r cyfrwng ysgrifenedig gyda'i gilydd (e.e. fideo) rhaid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan wneud pob ymdrech i sicrhau y gall unigolion gyrchu unrhyw ddeunyddiau yn eu dewis iaith neu yn ddwyieithog. Dylid dilyn Canllawiau Iaith Gymraeg Tir Natur (yn yr arfaeth).

## 2.2. Hyrwyddo'r Gymraeg yn Rhagweithiol

Mae'r Gymraeg yn greiddiol i hunaniaeth Tir Natur. Yn hynny o beth bydd Tir Natur yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol, boed hynny'n ysgrifenedig neu'n llafar. At hynny, lle bo'n briodol bydd Tir Natur yn dathlu treftadaeth ieithyddol a diwylliannol Cymru, ynghyd ag unrhyw ran benodol o Gymru ble mae'n gweithredu.

Cydnabyddir y gall iaith wreiddiol unrhyw destun lywio cyfeiriad y darn, y themâu a'r syniadau a gaiff sylw, a'r eirfa a'r cysyniadau a ddefnyddir. Felly, anogir staff a gwirfoddolwyr, os dewisant, i ddrafftio deunyddiau yn y Gymraeg yn gyntaf. Bydd Tir Natur yn hwyluso cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, yn union fel y mae'n hwyluso cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Bydd Tir Natur yn llunio cynllun ar gyfer sicrhau y caiff hunaniaeth a threftadaeth ieithyddol a diwylliannol Cymru ac unrhyw ardaloedd ble mae'n gweithredu eu dathlu. Bydd yn sicrhau y caiff treftadaeth ieithyddol yr ardaloedd ble mae'n gweithredu sylw a'i dathlu ar wefan a chyfryngau cymdeithasol yr elusen, yn ogystal â deunyddiau argraffedig perthnasol ar safleoedd Tir Natur a, lle bo'n briodol, mewn digwyddiadau. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, enwau lleoedd a nodweddion yn y dirwedd, enwau rhywogaethau ar ein safleoedd, cerddi a chaneuon, hanesion a chwedlau, ac ati.

# 3. Gweithredu'r Polisi Iaith

Mae'r adran hon yn manylu ar y trefniadau mewnol y bydd Tir Natur yn eu sefydlu er mwyn sicrhau y gall yr elusen weithredu'r Polisi hwn.

## 3.1. Capasiti Sefydliadol

Bydd Tir Natur yn sicrhau bod ganddo'r capasiti sefydliadol i weithredu'r Polisi hwn.

Bydd strategaeth recriwtio'r elusen yn rhoi ystyriaeth i ofynion iaith swyddi penodol o ddechrau'r broses recriwtio. Bydd pob swydd newydd yn nodi'r Gymraeg fel sgìl ddymunol o leiaf. Bydd Tir Natur yna'n gwneud asesiad o anghenion iaith pob swydd ar ddechrau'r broses recriwtio er mwyn pennu a ddylai'r Gymraeg, yn hytrach, fod yn sgìl fanteisiol neu ofynnol ar gyfer y swydd honno. Bydd unrhyw hysbyseb recriwtio yn nodi'r angen am sgiliau iaith cymwys i'r swydd, a bydd sgiliau iaith yn ffactor perthnasol i'w ystyried wrth benodi.

Bydd y Polisi hwn yn rhan o hyfforddiant cynefino holl aelodau newydd o staff Tir Natur, yn ogystal â holl Aelodau'r Bwrdd.

Mae Tir Natur yn ymrwymo i gynnal, gwella a gloywi sgiliau dwyieithog ei holl staff fel rhan o ddatblygiad proffesiynol staff.

Wrth recriwtio gwirfoddolwyr, bydd Tir Natur yn gwneud cofnod o'u sgiliau Cymraeg.

Byddwn yn sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gyfer unrhyw gyfieithu sy'n ofynnol, yn ogystal â chyfieithu ar y pryd, argraffu deunyddiau'n ddwyieithog a llwyfannau electronig dwyieithog. Bydd yn rhoi ystyriaeth ddyledus i hyn wrth godi arian ar gyfer gweithrediadau canolog a phrosiectau penodol.

Bydd Tir Natur yn sicrhau bod ganddo Grŵp Cymraeg a Diwylliant gweithredol, yn ogystal ag aelod o'r Bwrdd â chyfrifoldeb penodol dros y Gymraeg a Diwylliant.

Bydd Tir Natur yn llunio ac yn cynnal Canllawiau Iaith Gymraeg i gynorthwyo staff, gwirfoddolwyr ac Aelodau'r Bwrdd i weithredu'r Polisi hwn.

## 3.2. Cyfrifoldeb

Mae pawb yng nghymuned Tir Natur – yn aelodau o staff, Ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, boed yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn ddysgwyr neu'n ddi-Gymraeg – yn gyfrifol am sicrhau y caiff y Polisi hwn ei weithredu. Rhaid i bawb roi ystyriaeth i'r Polisi a'r egwyddorion o'i fewn wrth weithredu ar ran Tir Natur.

Yn achos unrhyw gynnig sy'n cael ei drafod gan y Bwrdd, mae cyfrifoldeb ar y Bwrdd i ystyried yr effaith ar y Gymraeg a chydymffurfiaeth â'r Polisi hwn cyn cymeradwyo'r cynnig.

## 3.3. Polisïau, Gweithdrefnau a Chanllawiau

Bydd unrhyw bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau eraill gan Tir Natur yn cyfeirio at y Polisi Iaith Gymraeg ac yn ystyried goblygiadau'r Polisi hwn o'u mewn.

## 3.4. Monitro a Gwerthuso

Bydd Grŵp Cymraeg a Diwylliant Tir Natur yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso gweithrediad y Polisi hwn, ynghyd ag unrhyw ganllawiau ymarferol cysylltiedig, yn unol â gweithdrefnau monitro a gwerthuso arferol Tir Natur.

Bydd yr aelod o'r Bwrdd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg a Diwylliant yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ar gynnydd mewn perthynas â'r Polisi hwn.

## 3.5. Adolygu

Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu yn flynyddol o leiaf, neu'n amlach os bydd angen.

Fersiwn: 1
Dyddiad cymeradwyo: 23 Gorffennaf 2026
I'w adolygu: Gorffennaf 2027